**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :GWELEDIGAETH AR GYFER TWF YR ECONOMI YNG NGOGLEDD CYMRU

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r "Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru" fel sail ar gyfer cynnal trafodaethau gyda Llywodraethau Prydain a Chymru am gais "Cynllun Twf" i'r rhanbarth.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn trafodaethau a chymeradwyaeth swyddogol i'r ddogfen gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 1 Awst 2016, mae angen cymeradwyaeth ffurfiol y chwe Cabinet ar draws Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i'r Weledigaeth a'r Strategaeth, fel sail ar gyfer cynnal trafodaethau am "Gynllun Twf".

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :STRATEGAETH "MWY NA LLYFRAU" Y GWASANAETH LLYFRGELL

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau" ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgell yn 2013-14, daethpwyd i'r casgliad nad oedd parhau i gynnal y gwasanaeth llyfrgell yn ei ffurf bresennol yn gynaliadwy yn yr hinsawdd ariannol presennol ac wrth gynllunio i'r dyfodol. Mae angen datblygu Strategaeth Llyfrgell a fyddai'n cynnwys dull darparu i gyfarch gofynion statudol ac anghenion Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ymateb i newid yn arferion darllen a chanfod gwybodaeth defnyddwyr.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cynghorydd Gareth Thomas gan fod ganddo berthynas yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgell. Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Fe ymgynghorwyd â'r cyhoedd i gasglu barn a syniadau trigolion, defnyddwyr a phartneriaid ar gynnwys y strategaeth a'r ddarpariaeth o wasanaethau llyfrgelloedd yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn (yn eu cyfarfod ar 3 Mawrth 2016) i gefnogi toriad o 25% ar y gyllideb prynu llyfrau o Ebrill 2016 ymlaen. Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :SYMUD TUAG AT SWYDDFEYDD ARDAL ADDYSG

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo gweithredu model Swyddfeydd Ardal Addysg.

Cymeradwyo cais am gostau o oddeutu £275,000 blynyddol am hyd at dair blynedd, gan awdurdod i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Aelod Cabinet Adnoddau i gadarnhau y cyfanswm yn sgil canlyniadau arfarnu swyddi'r staff.

Cymeradwyo i'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Addysg greu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ym maes Adnoddau Dynol er mwyn diffinio natur y gwasanaeth

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Fel rhan o'r adolygiad o strwythur strategol a rheolaethol yr Adran Addysg yng Ngwynedd, mae angen buddsoddi er mwyn sefydlu strwythur o Swyddfeydd Ardal effeithiol i hyrwyddo'r model 'Ysgol Gwynedd' o gydweithio wrth resymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol gan ryddhau penaethiaid i arwain yn effeithiol er mwyn gwella ansawdd addysg Gwynedd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :TREFNIADAU NEWYDD Y GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD GWYNEDD A MÔN

## PENDERFYNIAD

1. Mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon i fod yn weithredol erbyn Medi 2017.

2. Ymuno mewn partneriaeth ffurfiol efo Cyngor Sir Ynys Môn i weithredu'r Strategaeth a mabwysiadu trefn llywodraethu newydd y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, a fydd yn disodli'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA).

3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gytuno a chwblhau Cytundeb Ffurfiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y bartneriaeth.

4. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gwblhau cytundeb/memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod interim cyn arwyddo'r Cytundeb ffurfiol, fydd yn datgan ymrwymiad y ddau awdurdod i weithredu'r drefn newydd, ac yn caniatáu gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyrraedd y pwynt hynny.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Strategaeth wedi ei pharatoi er mwyn ymateb i gynigion deddfwriaethol arfaethedig Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar gyfer diwygio fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd ymuno mewn partneriaeth ffurfiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau darpariaeth gwasanaeth fwy integredig, effeithiol a chynhwysfawr ar draws lleoliadau addysgol y ddwy Sir.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD AR WAITH Y PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS

## PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a gyflwynwyd ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Mae angen i'r Cabinet allu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, mae angen i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2016.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS YR AMGYLCHEDD

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS GYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS DAI, GOFAL CWSMER A LLYFRGELLOEDD, AMDDIFADEDD A CHYDRADDOLDEB

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae’n gyfrifol amdano i’r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS YR ECONOMI A CHYMUNED

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 13 Medi 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **21 Medi 2016** |

## PWNC

Eitem :BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, yn amodol ar wneud yr addasiadau isod:-

- Cyng. Dyfed Edwards ddim i gyflwyno eitem 'Cynllun Strategol 2017/18 ar 4 Hydref 2016.
- Cyng. Dafydd Meurig ddim i gyflwyno eitem 'Goblygiadau Penderfyniad y Cyngor i gau swyddfeydd Frondeg, Pwllheli a Felinheli ar 4 Hydref 2016, ond ei ohirio i gyfarfod y Cabinet ar 1 Tachwedd 2016.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaenraglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Flaenraglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, a cadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.